



# Addoldai Cymru

Welsh Religious Buildings Trust

Newyddlen  
Haf  
2015

## Yma o hyd...?

Wedi'i hymgorffori yn adeilad presennol Yr Hen Gapel a adeiladwyd yn 1834 mae yna garreg sylfaen o adeilad blaenorol a godwyd yn 1733. Amser hir yn ôl. Thâl hi ddim felly i ni feddwl ond fesul blwyddyn neu bum mlynedd, ond yn hytrach dros rychwant y cenedlaethau, ac i ystyried yr hyn rydym wedi ei etifeddu, beth rydym yn ei drysori, a beth fyddwn am ei drosglwyddo i'n plant. Mae *Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015* yn cydnabod yr angen i feddwl ar draws sawl cenedlaeth, gan wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol heb beryglu cenedlaethau'r dyfodol, gan gynnwys yn benodol fwriad i hyrwyddo diwylliant a threftadaeth. Mae *Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru)*, sydd o dan ystyriaeth ar hyn o bryd, wedi'i anelu at wella gwarchod a rheoli'r amgylchedd hanesyddol - hefyd yn gweithio tuag at ffyrdd i drosglwyddo ein hetifeddiaeth mewn cyflwr da. Pa mor effeithiol bydd yr holl ymdrech ddeddfwriaethol yma? Y prawf amlwg fydd faint o'n haddoldai hanesyddol fydd yn goroesi'r genhedlaeth hon. A faint fydd wedi mynd i ddifancoll.

**Diolch i chi am eich cefnogaeth - mae'n cael ei werthfawrogi!**  
Rydym yn croesawu cyfeillion a chefnogwyr lleol yn ein holl brosiectau amrywiol.



David Lloyd gyda Huw Edwards a Wyn Thomas yn ystod y seremoni ailagor

## Dathlu'r Hen Gapel 'newydd'

Mae un o'r "capeli pwysica' yn hanes anghydfurfiol Cymru" wedi cael ei achub, meddai Huw Edwards, y darlledwr a noddwr Addoldai Cymru, wrth ailagor Hen Gapel Llwynrhydowen ger Llandysul yng Ngheredigion. Fe ailadroddodd ddigwyddiad hanesyddol yn 1879, trwy drosglwyddo allwedd y capel ar ei newydd wedd i'r gweinidog Undodaidd Lleol, Wyn Thomas.

"R'ych chi wedi cyflawni rhywbeth arbennig, arbennig iawn," meddai wrth annerch yn ystod y seremoni ffurfiol, ddydd Gwener 10 Gorffennaf.

Roedd y seremoni ailagor dan adain Addoldai Cymru yn dilyn blynyddoedd o waith gan yr Ymddiriedolaeth a Chyfeillion yr Hen Gapel - gan atgyweirio'r adeilad rhestredig Gradd II\* tra'n ei gadw yn ei gyflwr gwreiddiol. Roedd cynrychiolwyr o 13 chapel Undodaidd y Smotyn

Du - ardal gryfa'r enwad yng Nghymru - ymhlith y gynulleidfa ar gyfer y seremoni, a oedd yn cynnwys ychydig anerchiadau dan arweiniad cadeirydd Addoldai Cymru, David Lloyd, a gwasanaeth arbennig dan arweiniad y Parch Wyn Thomas.

Mae'r capel hefyd yn bwysig yn hanes gwleidyddol Cymru oherwydd digwyddiadau 1876-79 pan gafodd y gynulleidfa ei throi allan o'r capel a'r fynwent gan y landlord Torïaidd, oherwydd radicaliaeth y gweinidog, Gwilym Marles.

*Dylan Iorwerth*

**Er mwyn arbed costau, rydym yn gobeithio dosbarthu mwyn o gopiau o'n cylchlythyr drwy ebost. Rhowch wybod os hoffech dderbyn y cylchlythyr drwy ebost yn hytrach na fel copi papur drwy'r post.**



## Atgyweirio'r Hen Gapel, Llwynrhydowen

Mae ail-agor yn Yr Hen Gapel (tudalen 1) yn dilyn gwaith atgyweirio sylweddol a wnaed i'r adeilad ar gost o £176,000.

Cafodd y to ei drwsio, adnewyddwyd y nwyddau dŵr glaw, ail-bwyntiwyd rhannau o'r waliau allanol ac atgyweiriwyd y cerrig coffa sydd wedi'u hymgorffori yn y wal flaen. Gwnaed gwaith atgyweirio sylweddol i ffenestri, drysau a'r gwaith coed mewnol, gan gynnwys y pulpud a'r sêd fawr. Cafodd cloc y capel ei drwsio hefyd. Atgyweiriwyd y gwaith plastr mewnol, gan gynnwys adnewyddu'r nenfwd yn gyfan gwbl; adnewyddwyd y gosodiad trydanol, ac fe ailaddurnwyd y tu mewn. Gosodwyd pafin newydd yn lle'r llwybr concriid o flaen y capel, ac fe atgyweiriwyd y giatiau. Ailwampiad trylwyr iawn! Mae'r gwaith yn golygu bod yr adeilad wedi ei atgyweirio'n drwyadl, ac mae bellach mewn cyflwr da at wahanol ddefnydd a gweithgareddau yn y dyfodol.

Gwnaed y gwaith gan Towy Projects Cyf, o dan oruchwyliaeth y pensaer Roger Clive-Powell, gan weithio gyda Carl Morgan, syrfêwr adeiladu. Arianwyd y gwaith gan Cadw, Cronfa Dreftadaeth y Loteri, Cyngor Sir Ceredigion, Cyngor Cymuned Llandysul, Cynllun Grant Mannau Addoli Rhestredig, ac yn arbennig o ganlyniad i apêl 'Llechi Llwyn' Cyfeillion Yr Hen Gapel. Mae'r Ymddiriedolaeth yn ddiolchgar iawn i bawb a gyllidodd y gwaith.

Mae'r gwaith atgyweirio i'r Hen Gapel yn rhan o brosiect mwy, sy'n cynnwys allbynnau digidol, mewn cydweithrediad gyda'r Comisiwn Brenhinol (gweler y dudalen gyferbyn). Gellir gweld deunydd digidol yn ymwneud â'r Hen Gapel yn y capel ei hun ar ffonau clyfar a thabledi, drwy gyfrwng wifi lleol sydd wedi'i osod yno.

Bydd camau pellach o waith yn y dyfodol yn cynnwys gwaith trwsio i gerrig bedd yn y fynwent ac i waliau'r terfynau, a gwaith i wneud yr adeilad yn fwy hygyrch a defnyddiadwy ar gyfer y gymuned leol.

## Anthony Jones noddwr newydd



Mae'r Ymddiriedolwyr yn falch iawn bod yr Athro Anthony Jones CBE wedi cytuno i fod yn noddwr i'r Ymddiriedolaeth. Mae'r Athro Jones yn adnabyddus yn rhyngwladol fel gweinyddwr y celfyddydau, darlledwr, awdur, a hanesydd. Yn enedigol o Aberpennar, a'i deulu yn hanu o Fôn, yn ystod ei yrfa bu'n Gyfarwyddwr Ysgol Gelf Glasgow, Rheithor Coleg Celf Brenhinol, Llundain, ac yn Llywydd, ac yna yn Ganghellor, yr Art Institute of Chicago. Mae'n Athro Anrhydeddus ym Mhrifysgol Cymru, ac wedi derbyn chwe Doethuriaeth er anrhydedd. Mae'n awdurdod cydnabyddedig ar ddatblygu celf, dylunio a phensaerniaeth y bedwaredd ganrif ar bymtheg a'r ugeinfed ganrif. Fel bachgen ysgol ysgrifennodd *Chapel Architecture in the Merthyr Valley*, ac yn 1984 cyhoeddwyd yr astudiaeth arloesol *Welsh Chapels* (Amgueddfa Genedlaethol Cymru, Caerdydd), a ailgyhoeddwyd yn ddiweddarach ar ffurf estynedig yn 1996 (Alan Sutton, Stroud), ac fe luniodd yr arddangosfa *Capeli Cymru* yn yr Amgueddfa Genedlaethol. Yn 1995, cyflwynodd ddwy raglen deledu ar gyfer ITV, *On the Chapel Trail*. Ymddeolodd yn 2012, ond mae ar hyn o bryd yn gwasanaethu fel Llywydd Interim y Kansas City Art Institute.

## Cyfeillion Yr Hen Gapel

Mae Cyfeillion Yr Hen Gapel wedi bod yn brysur yn codi arian ar gyfer y gwaith ar yr adeilad. Mae apêl 'Llechi Llwyn' wedi codi dros £3,500 tuag at y gwaith atgyweirio, gan fwyaf fesul £10 y llechen. Mae hyn wedi golygu ein bod wedi medru gwneud mwy o waith yn Yr Hen Gapel yn ystod y cyfnod hwn o'r gwaith. Rydym mor ddiolchgar i'r Cyfeillion am fod yn bartneriaid mor weithgar a chefnogol.





## Gwefan NEWYDD www.addoldaicymru.org

Mae ein gwefan newydd, sydd wedi ei lansio ar y cyd â Chomisiwn Brenhinol Henebion Cymru (CBHC), yn amgueddfa rithwir sy'n adrodd hanes capeli Cymru o ran crefydd, pensaernïaeth, diwylliant a chymdeithas.

Mae'r wefan yn darparu amrywiaeth o wybodaeth a chyingor ymarferol ar gyfer cynulleidfaoedd a pherchnogion capel, ar gadwraeth, cynllunio, grantiau a chyllid, ac mae'n cynnwys cysylltiadau a dolenni defnyddiol, yn ogystal â gwybodaeth am sut i gefnogi'r Ymddiriedolaeth drwy wirfoddoli a gyda'n Cyfeillion.

Gallwch ddysgu am ein chwe chapel; ar gyfer pob adeilad, mae manylion eu hanes, pensaernïaeth, gwybodaeth ar eu hatgyweirio, a lluniau. Mae yna hefyd fforwm defnyddwyr sy'n galluogi pobl i ychwanegu eu delweddau eu hunain, eu sylwadau a gwybodaeth, a thrwy hynny rydym yn gobeithio creu archif o ffotograffau, atgofion a thrafodaethau am bob capel.

## Anghydfurfaeth ddigidol

Gallwch fynd ar daith rithwir o'n capeli ar-lein, o unrhyw le yn y byd, diolch i gyfres o adnoddau digidol a gynhyrchwyd gan CBHC. Gwnaed sgan laser o Fethania, Hen Dŷ Cwrdd, Yr Hen Gapel a Pheniel ar y cyd â Phrifysgol Aberystwyth, gan alluogi creu cofnodion 3D manwl a

chyflawn, at ddibenion cadwraeth, ond sydd hefyd yn caniatáu rhoi 'hediadau' o bob capel ar-lein. Mae teithiau ffotograffig o'r capeli hyn gan ddefnyddio delweddau gigapixel yn galluogi gwylwyr i archwilio'r tu mewn a thu allan yn fanwl ar gydraniad uchel, yn ogystal â chynnig delweddau archif o rai elfennau.

Adroddir straeon Bethania a Peniel mewn dwy ffilm 10 munud sy'n cynnwys deunydd archif, deunydd cymunedol ac adluniadau cyfrifiadurol. Mae yna hefyd fodel rhyngweithiol o'r Hen Dŷ Cwrdd, sydd yn galluogi defnyddwyr i fynd o gwmpas y capel mewn amser real, gan ddewis gwrthrychau eiconig o amgylch tu mewn y capel ac yn y fynwent, i ddarllen testun, gweld delweddau a chlywed sain sydd yn ymwneud â hanes yr adeilad a'i gymuned.

Mae animeiddiad rhyngweithiol o'r Hen Gapel yn cael ei baratoi, a bydd ar gael cyn bo hir.

## Chwilio'r Gronfa Ddata Capeli


Agwedd bwysig o'r wefan yw'r gallu, am y tro cyntaf, i chwilio Cronfa Ddata Capeli CBHC yn ei chyfarwydd. Mae cofnodion unigol yn cynnwys gwybodaeth am hanes, pensaernïaeth, dyddiadau, pobl, cost, a statws cyfredol y capeli, a gellir edrych arnynt ochr yn ochr ag unrhyw ddelweddau digidol sydd ar gael.

Gellir chwilio yn hyblyg iawn mewn dwy ffordd, naill ai gan ddefnyddio 'gair allweddol neu ymadrodd', neu drwy chwilio ar fap, a gellir defnyddio hidlyddion yn y ddau fodd o chwilio i freinio'r chwiliad ymhellach. Yn ogystal â chwilio'r gronfa ddata, mae yna hefyd fodd i ddefnyddwyr uwchlwytho gwybodaeth, gan gynnwys manylion ychwanegol, cywiriadau a ffotograffau, ar ffurf sylwadau Cymunedol. Bydd y rhain wedyn yn cael eu defnyddio i ddiweddarau ac ehangu cronfa ddata'r CBHC, ac yn dilyn o hynny, y wybodaeth sydd ar y wefan.

## Dysgu am gapeli ac Anghydfurfaeth Cymru


Mae'r wefan yn cynnwys erthyglau ar deipoleg adeiladau capel, penseiri amlwg, defnydd cymdeithasol a diwyllianol o gapeli a chanllaw byr i, a hanes, y prif enwadau. Bydd erthyglau yn cael eu hychwanegu dros amser, ac fe gaiff unrhyw un a hoffai gyfrannu erthygl, boed ar gapel unigol neu ardal eang o waith ymchwil eu hannog i wneud hynny.

Bydd y wefan yn parhau i dyfu a datblygu, a'r gobaith yw, wrth wneud hynny bydd yn dod yn fan lle gall pawb ddysgu am, ac ymgysylltu â'r adeiladau eiconig hyn a'u hanes. Yr un mor bwysig, gall fod yn borth i gasglu eu straeon presennol, a rhai'r dyfodol.



## City Mission: The Story of London's Welsh Chapels

Mae hwn yn gyhoeddiad newydd gan Huw Edwards, sy'n un o noddwyr Addoldai Cymru. Ynddo, mae'n olrhain



hanes capeli Cymraeg Llundain. Mae'n archwilio dechreuadau'r Cymry yn Llundain, patrwm mudor Cymry i Lundain o'r gorffennol i'r presennol, dylanwad Hywel Harris ar Fethodistiaid cynnar, a thraddodiad pregethu Cymreig, gan ddisgrifio'n fanwl yr achosion Cymraeg a Chymreig yn Llundain.

## Yr Hen Dŷ Cwrdd, Trecynon

Am y tro cyntaf ers ugain mlynedd, agorwyd drysau'r Hen Dŷ Cwrdd yn Nhrefynon, Aberdâr ar gyfer gwasanaeth ar y Sul ar 19 Gorffennaf 2015. Aelodau eglwys Undodaidd Highland Place, ynghyd â rhai ffrindiau, a oedd yn y gynulleidfa, ac roedd y gwasanaeth yn cynnwys cyfraniadau gan y cyn-weinidog, y Parch Eric Jones, D L Davies, awdur y llyfr ar hanes cynnar hen Dŷ Cwrdd, Phillip Griffiths, a siaradodd am bensaernïaeth yr adeilad, a Melda Grantham, Ysgrifennydd Cyffredinol yr Undodiaid yng Nghymru. Canwyd emynau yn cynnwys geiriau gan gyn Weinidogion y capel gyda Jacob Jones yn cyfeilio ar yr allweddellau.

Cyfeiriwyd at ddylanwad y Parch Thomas Evans (Tomos Glyn Cothi), Teulu Llewelyn o'r Bwllfa,

Thomas Dafydd, y telynor, R J Jones ac W W Price, haneswyr, E R Dennis, cynhyrchydd drama, John Jones a Mudiad y Siartwyr, ac i'r prosiectau diwylliannol a llenyddol niferus sydd wedi datblygu o blith aelodau'r gynulleidfa ers ei sefydlu yn 1751.

*Eric Jones*



Y gynulleidfa yn Yr Hen Dŷ Cwrdd

## Rhowch Rhodd os gwelwch yn dda

Mae haelioni ein cefnogwyr yn bwysig iawn i'n gwaith. Gellir defnyddio eich rhodd naill ai ar gyfer gwaith mewn adeilad penodol, neu ar gyfer ein gwaith yn gyffredinol. Mae sawl ffordd i roi.

**Drwy wefan MyDonate:** Ewch i [www.btplc.com/mydonate](http://www.btplc.com/mydonate) a gosodwch ein henw neu ein rhif elusen 1084030 yn y blwch 'Donate to charity'.

**Drwy eich banc:** Gyrrwch sic, trefnwch archeb sefydlog, neu cyfrannwch yn uniongyrchol i'n cyfrif banc ni: (HSBC 40-16-02 31518097) (rhowch gyfeirnod er mwyn i ni nodi gan bwy mae'r rhodd)

### Cymorth Rhodd

Os ydych yn talu treth incwm y DU, gallwn hawlio 25% yn ychwanegol ar ben eich rhodd gan Gyllid a Thollau EM, heb unrhyw gost i chi. Gofynnwch i ni am ffurflen.

### Bod yn Gyfaill Addoldai Cymru

A wnech chi ystyried ymuno â Chyfeillion Addoldai Cymru? Bydd eich tanysgrifiad yn fodd i'r Ymddiriedolaeth dderbyn rhodd fechan ond hynod ddefnyddiol. Mae aelodaeth yn agored i bawb, ar gost o £10 y flwyddyn. Mae ffurflen aelodaeth a ffurflen archeb sefydlog banc ar gael ar wefan yr Ymddiriedolaeth, neu cysylltwch â swyddfa'r Ymddiriedolaeth.

Mae mwy o wybodaeth a ffurflenni ar ein gwefan [www.addoldaicymru.org](http://www.addoldaicymru.org) a chwiliwch am y botwm Rhoddion.

Mae'r Ymddiriedolaeth yn derbyn cymorth grant gan Cadw, adran amgylchedd hanesyddol Llywodraeth Cymru, i gynnal rhan sylweddol o'i chostau beunyddiol. Am ragor o wybodaeth am yr Ymddiriedolaeth cysylltwch â ni, byddwn yn falch iawn o glywed gennych chi!

**Ebost:** [post@addoldaicymru.org](mailto:post@addoldaicymru.org) | **Ffôn:** 01766 515590 | [www.addoldaicymru.org](http://www.addoldaicymru.org) | [www.welshchapels.org](http://www.welshchapels.org)  
Addoldai Cymru, Capel Peniel, Tremadog, Porthmadog, LL49 9PS

Elusen Gofrestredig 1084030 Cwmni Cyfyngedig Drwy Warant 3870343